

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Nodyn cyngor

Tachwedd 2018



Cefndir

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi ceisio cyngor ynghylch nifer o ymholiadau'n ymwneud â statws cyfreithiol Byrddau Diogelu Rhanbarthol a materion llywodraethu sy'n codi mewn cysylltiad ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhelir ganddynt.

Mae'r cais hwn am gyngor yn codi o ganlyniad i farwolaeth Dylan Seabridge yn Sir Benfro yn 2011, sef bachgen 8 oed a oedd yn cael ei addysg gartref. Yn unol â'r fframwaith statudol, roedd yn ofynnol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol lleol gynnal Adolygiad Ymarfer Plant yn yr amgylchiadau hyn. Cafodd yr achos lawer o sylw yn y cyfryngau, a olygodd fod y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi cael nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Adolygiad Ymarfer Plant. Cododd anawsterau ynghylch ymdrin â'r Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ac yn benodol ynghylch statws fersiynau drafft o Adolygiad Ymarfer Plant y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

O ganlyniad i'r anawsterau hyn cododd cwestiynau ynghylch statws Byrddau Diogelu Rhanbarthol, sy'n fyrddau amlasiantaeth a gaiff eu cadeirio fel rheol gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdod lleol, ac y mae eu staff yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol.

Cyngor

Comisiynwyd Eversheds Sutherland i roi cyngor ynghylch nifer o gwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r materion hyn. Gan ymdrin â phob cwestiwn yn ei dro:-

1. **Yn ôl y gyfraith, beth yw statws cyfreithiol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?**

Yn ôl adran 134(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") "Rhaid i reoliadau nodi'r ardaloedd hynny yng Nghymru ("ardaloedd Byrddau Diogelu") y bydd Byrddau Diogelu ar eu cyfer."

Yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 (rheoliad 3 ac Atodlen 1), nodir mai'r prif ardaloedd llywodraeth leol yw'r Ardaloedd Byrddau Diogelu perthnasol, sef Caerdydd a'r Fro (sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg), Cwm Taf (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf), Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen), Canolbarth a Gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys), Gogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) a Bae'r Gorllewin (Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot).

Dan adran 134(2) y Ddeddf, mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cynnwys nifer o bartner[iaid] Bwrdd Diogelu:

"(2) Mae pob un o'r canlynol yn bartner Bwrdd Diogelu mewn perthynas ag ardal Bwrdd Diogelu—

(a) yr awdurdod lleol dros ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal Bwrdd Diogelu;

(b) prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal Bwrdd Diogelu;

(c) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal Bwrdd Diogelu;

(d) ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal Bwrdd Diogelu;

(e) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 o ran Cymru;

(f) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae'n ofynnol iddo gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 weithredu fel partner Bwrdd Diogelu mewn perthynas â'r ardal Bwrdd Diogelu."

Caiff un o'r partneriaid hyn ei bennu yn "bartner arweiniol" mewn perthynas â phlant ac mewn perthynas ag oedolion yn yr ardal berthnasol (adran 134(3)).

Caiff swyddogaeth, arferion a gweithdrefnau Byrddau Diogelu (sef Byrddau Diogelu Rhanbarthol) eu disgrifio'n fanwl yn adrannau 135 i 139 y Ddeddf, yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015.

Felly, caiff Byrddau Diogelu Rhanbarthol eu creu dan y Ddeddf a'r Rheoliadau sy'n sail iddi¹ a chaiff eu swyddogaethau eu pennu gan y Ddeddf honno a'r Rheoliadau hynny. Cyrff statudol ydynt o safbwynt eu statws cyfreithiol.

2. **A yw Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol?**

Y tu hwnt i fod yn gorff statudol (gweler uchod), nid oes gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol ei bersonoliaeth gyfreithiol ei hun. Yn hytrach, mae'n cynnwys ei "bartner[iaid] Bwrdd Diogelu" cyfansoddol dan adran 134(2), y mae gan bob un ohonynt ei bersonoliaeth gyfreithiol ei hun.

Fodd bynnag, yn unol â'u swyddogaethau statudol, ac yn yr un modd â byrddau lleol diogelu plant², gall Byrddau Diogelu Rhanbarthol fod yn agored i adolygiad barnwrol³ a gallant gyflwyno ceisiadau am imiwnedd lles y cyhoedd⁴.

Ymddengys hefyd, at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y dylid trin Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel personau cyfreithiol (gweler adran 4 isod).

3. **A yw Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol?**

Nid yw Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u rhestru yn Atodlen 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel awdurdodau cyhoeddus at ddiben y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (dan adran 3(1)), ac nid yw Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u hychwanegu at Atodlen 1 gan unrhyw orchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adrannau 4 neu 5 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (yn wahanol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol,

¹ Yn yr un modd, caiff y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ei greu dan adran 132 y Ddeddf a chaiff ei swyddogaethau eu pennu yn Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015.

² A grëir dan adran 13 Deddf Plant 2004 (a ddiddymwyd gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017).

³ Gweler R(Mohammed) v Local Safeguarding Children's Board for Islington [2-14] EWHC 2966 (Admin) ac R. (Maguire) v Assistant Coroner for West Yorkshire [2018] EWCA Civ 6 lle cafodd Bwrdd Diogelu Plant Leeds ei enwi yn Barti â Budd.

⁴ Worcestershire CC v HM Coroner for Worcestershire [2013] EWHC 1711 (QB).

sydd wedi'i nodi yn awdurdod cyhoeddus yn unol â Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Awdurdodau Cyhoeddus Ychwanegol) 2018/173.

Ar y sail honno, nid yw'r hawl gyffredinol a geir dan adran 1 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sef yr hawl i gael mynediad i wybodaeth a gaiff ei dal gan awdurdodau cyhoeddus, yn berthnasol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.

4. **Beth yw statws data a gaiff ei ddal gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol?**

Yn ein barn ni, nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y caiff ei hystyried uchod yn berthnasol i wybodaeth sydd ym meddiant Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Ac nid oes rheidrwydd ar bartneriaid cyfansoddol Byrddau Diogelu i ddatgelu gwybodaeth y maent yn ei dal ar ran Byrddau Diogelu Rhanbarthol, er eu bod nhw eu hunain yn awdurdodau cyhoeddus yn yr ystyr a geir yn Atodlen 1 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hynny am nad yw gwybodaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn adran 3(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sef:

"For the purposes of this Act, information is held by a public authority if –

(a) it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person, or

(b) it is held by another person on behalf of the authority."

Caiff y dadansoddiad hwn ei ategu gan benderfyniadau'r Comisiynydd Gwybodaeth yng nghyswllt Byrddau Diogelu Plant yn Lloegr:

4.1 Yn 2010 gwrthododd Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddatgelu Adolygiad Achos Difrifol Edlington, a gynhyrchwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Doncaster, a chafodd hynny ei ategu gan y Comisiynydd Gwybodaeth (cyfeirnod: FS50368110).

4.2 Yn 2015, ategodd y Comisiynydd Gwybodaeth benderfyniad gan Gyngor Dinas Stoke-on-Trent i wrthod datgelu cofnodion ei gynrychiolwyr a oedd wedi mynychu cyfarfodydd Bwrdd Diogelu Stoke-on-Trent (cyfeirnod: FS50566663). Cafodd y penderfyniad hwn ei ategu gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol Hawliau Gwybodaeth) mewn penderfyniad a oedd yn ddyddiedig 14 Ebrill 2016 (Michael J Barnes v Information Commissioner EA/2015/0222).

Roedd y penderfyniadau uchod yn ymwneud â byrddau diogelu yn Lloegr, yr oedd rheoliadau gwahanol⁵ yn berthnasol iddynt ar y pryd, yn benodol yng nghyswllt hyd a lled y wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei datgelu yn dilyn Adolygiad Achos Difrifol. Roedd Rheoliadau 2006 yn Lloegr yn nodi fel a ganlyn dan adran 5:-

(1) The functions of an LCSB in relation to its objective (as defined in section 14(1) of the Act are as follows-

⁵ Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant 2006 oedd yn berthnasol yn Lloegr, o'u cymharu â Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 yng Nghymru.

.....

(e) 'undertaking reviews of serious cases and advising the authority and their Board partners on lessons to be learned.'

Yn Lloegr, roedd y canllawiau statudol⁶ yn ymwneud ag Adolygiadau Achos Difrifol yn nodi yn y lle cyntaf mai dim ond crynodebau gweithredol o Adolygiadau Achos Difrifol y dylid eu cyhoeddi wedi i'r Adolygiad Achos Difrifol gael ei gwblhau; cafodd y canllawiau hyn eu newid wedyn ar 10 Mehefin 2010⁷ pan roddwyd gorchymyn i ddarparu adroddiadau trosolwg hefyd.

Mewn cyferbyniad â hynny, roedd Rheoliadau Cymru yn nodi fel a ganlyn:-

4.-(1) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ("adolygiad achos difrifol") yn unol â'r rheoliad hwn yn unrhyw un o'r achosion canlynol os bydd yn wybyddus bod plentyn, o fewn ardal y Bwrdd, yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu os amheuir hynny, ac-

(a) bod plentyn wedi marw, neu

(b) bod plentyn wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl, neu

(c) bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad.

(2) Caiiff Bwrdd gynnal adolygiad achos difrifol yn unol â'r rheoliad hwn os bydd plentyn o fewn ardal y Bwrdd yn dioddef niwed nad yw'n dod o fewn paragraffau 1(a)(b) neu (c).

(3) Diben adolygiad achos difrifol yw canfod camau y gellir eu cymryd i rwystro marwolaeth neu niwed o'r tebyg rhag digwydd.

(4) Wrth gynnal adolygiad achos difrifol, rhaid i Fwrdd-

(a) gofyn i bob corff cynrychioliadol roi i'r Bwrdd adroddiad ysgrifenedig o'i ymwneud â'r plentyn sy'n destun yr adolygiad, onid yw'r Bwrdd o'r farn bod adroddiad o'r fath yn ddiangen yn yr amgylchiadau;

(b) ar ôl cael yr adroddiad y cyfeirir ato yn isbaragraff (a), llunio adroddiad ysgrifenedig (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "adroddiad trosolwg")-

(i) sy'n canfod y camau sydd i'w cymryd i leihau'r risg o farwolaeth debyg neu niwed tebyg rhag digwydd; a

(ii) sy'n argymhell erbyn pryd y dylid cyflawni'r camau hynny, ac yn enwi'r personau a ddylai eu cyflawni;

(c) llunio crynodeb heb gynnwys enw neb o bob adroddiad trosolwg a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio ym mhrif swyddfa'r Bwrdd.

⁶ *Working Together to Safeguard Children* (2010), a adolygwyd ers hynny yn 2013, 2015, 2017 a 2018

⁷ Llythyr gan Tim Loughton AS i gadeirydd pob Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant, dyddiedig 10 Mehefin 2010

(5) Rhaid i'r Bwrdd roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru–

(a) copi o bob adroddiad a ddarperir gan gorff cynrychioladol yn unol â pharagraff (4)(a) uchod;

(b) copi o bob crynodeb heb gynnwys enw neb; ac

(c) copi o bob adroddiad trosolwg.

(6) Rhaid i'r Bwrdd roi i bob cynrychiolydd–

(a) copi o bob crynodeb heb gynnwys enw neb; a

(b) oni bai bod y Bwrdd yn ei hystyried yn amhriodol, pob adroddiad trosolwg.

Rhain oedd y rheoliadau a oedd mewn grym pan gafodd y ddau benderfyniad y cyfeirir atynt uchod eu gwneud gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd y ddau benderfyniad yn ystyried i ba raddau yr oedd y Byrddau Diogelu yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a ph'un a oedd partneriaid y Byrddau Diogelu yn dal y wybodaeth at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ai peidio.

Er y gwahaniaethau yn y rheoliadau, mae fersiynau Cymru a Lloegr ill dwy yn cydnabod, i bob pwrpas, bod yr adroddiadau'n cael eu darparu i bartner y Bwrdd/i'r corff cynrychiadol er mwyn gallu dysgu gwersi. Ymdriniwyd yn benodol â'r pwynt hwn yn achos Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster y cyfeirir ato uchod – h.y. roedd yr achwynydd yn yr achos hwnnw wedi dadlau nad yw'r Adolygiad Achos Difrifol yn cael ei ddal er mwyn ei gadw'n ddiogel yn unig, ond ei fod yn cael ei ddal at y diben canlynol: *'as a document to learn lessons from and as a record of the council's own culpability'*⁸. Gwrthodwyd y ddadl hon gan y Comisiynydd Gwybodaeth a oedd yn fodlon nad oedd y wybodaeth yn cael ei dal at ddibenion y Cyngor ei hun ac nad oedd, felly, yn cael ei dal at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Un gwahaniaeth arall rhwng y rheoliadau yng Nghymru a Lloegr yw rheoliad 7 Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006. Mae'r rheoliad hwnnw'n nodi fel a ganlyn:-

'(1) Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant ddarparu aelod o'i staff i ddarparu gwasanaethau gweinyddol i'r Bwrdd.

(2) Mae cofnodion Bwrdd (ar ba ffurf bynnag y maent) i'w trin fel pe baent yn gofnodion yr awdurdod gwasanaethau plant.'

Un ffordd o ddehongli rheoliad 7(2) yw ei fod yn golygu bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i holl gofnodion y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant. Fodd bynnag, nid yw'n glir o gwbl a yw'r diffiniad o 'gofnodion' yn cynnwys adolygiad achos difrifol, gan nad yw adolygiad o'r fath yn cael ei ddiffinio. Mae rheoliad 4 hefyd yn rhagnodi'n glir iawn yr hyn y mae'n rhaid ei wneud wrth gynnal adolygiadau achos difrifol, ac mae'n cynnwys, er

Roedd Deddf Plant 2004 yn sail i'r ddwy set o reoliadau, ac yn sefydlu Byrddau Diogelu yn y ddwy awdurdodaeth; roedd adrannau 13-14¹² y Ddeddf honno yn berthnasol i Loegr, ac roedd adrannau 31-32¹³ yn berthnasol i Gymru. Yn eu hanfod, mae'r ddwy ddarpariaeth yn union yr un fath. Er bod y drefn yng Nghymru wedi'i disodli ers hynny gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sefydlodd Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn lle'r byrddau lleol ar gyfer diogelu plant a'u rhagflaenodd, o'u cymharu mae'r un egwyddorion yn debygol o fod yn berthnasol i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.¹⁴

Os felly, byddai hynny'n golygu y dylid trin Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel person cyfreithiol ("another person") at ddiben adran 3(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth¹⁵.

Gellid tybio, felly, nad yw'r wybodaeth a ddarperir gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (sy'n awdurdod cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth) dan adran 139(1) y Ddeddf, yn wybodaeth a gaiff ei dal gan yr awdurdod cyhoeddus hwnnw yn unol ag adran 3 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae gwybodaeth a gaiff ei dal gan bartner Bwrdd Diogelu yn cael ei dal ar ran y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n drydydd parti, ac felly nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i'r wybodaeth.

Ers hynny mae Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 wedi dod i rym ynghyd â Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015, wedi i Reoliadau 2006 Cymru gael eu diddymu. Mae'r Rheoliadau cyntaf a enwir uchod yn ymdrin bellach â swyddogaethau¹⁶ Byrddau Diogelu a'r angen i gynnal adolygiadau ymarfer¹⁷. Mae rhwymedigaeth ar bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol hefyd (boed yn Fwrdd Diogelu Plant neu'n Fwrdd Diogelu Oedolion) wrth gynnal adolygiad ymarfer i sicrhau bod adroddiad yr adolygiad ymarfer ar gael i'r cyhoedd¹⁸. Fodd bynnag, nid yw cynnwys y Rheoliadau hyn a'r rhwymedigaethau ychwanegol ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yng nghyswllt cynnal adolygiadau ymarfer yn newid ein cyngor ynghylch y modd y caiff y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ei gweithredu'n gyffredinol fel yr eglurir uchod.

Yn amlwg, mae lle o hyd i un o bartneriaid Bwrdd Diogelu gael ei herio yng nghyswllt y wybodaeth y mae'n ei dal yn dilyn adolygiadau achos difrifol/adolygiadau ymarfer. Er mai ein cyngor ni yw y bydd y partner dan sylw'n gallu dibynnu ar y safbwynt cyfreithiol a eglurir uchod, bydd y modd y caiff y wybodaeth a ddarperir iddo ei defnyddio yn ei sefydliad yn ffactor perthnasol wrth benderfynu a yw'r wybodaeth yn cael ei dal at ei ddiben ei hun (ac os felly, a yw'n wybodaeth y mae'n rhaid ei datgelu dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth) yn ogystal â dibenion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Bydd hynny, wrth gwrs, yn fater ffeithiol i'w ystyried mewn achosion unigol. Rydym yn gwybod bod y Bwrdd Diogelu Annibynnol

¹² A ddiddymwyd ers hynny gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 yn dilyn diddymu'r Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yn Lloegr

¹³ A ddiddymwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016/413

¹⁴ Byddai Byrddau Diogelu Rhanbarthol, pa un bynnag, yn gallu dibynnu ar yr esemptiadau dan Ran II y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

¹⁵ Ar wahân i achosion lle mae'n ofynnol fel arall i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ddatgelu dogfennau yn unol â'u dyletswyddau statudol, er enghraifft, 'trefnu bod yr adroddiad ar yr adolygiad ymarfer ar gael i'r cyhoedd' yn unol â rheoliad 4(5)(l) Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

¹⁶ Rheoliad 3

¹⁷ Rheoliad 4

¹⁸ Rheoliad 4(l)

Cenedlaethol wrthi'n ystyried canllawiau ynghylch y maes hwn, a chredwn fod hynny'n beth synhwyrol er mwyn cael dull gweithredu cydlynus yng nghyswllt materion o'r fath.

Yn wahanol i'r sefyllfa dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn berthnasol i ddata a gaiff ei ddal gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.

Mae adran 137 y Ddeddf yn rhoi grym i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ofyn am wybodaeth benodol ('specified information') gan berson neu gorff cymwys ('qualifying person or body'). Fel yr eglurir yn y Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf:

"Section 137 — Supply of information requested by Safeguarding Boards

385. Section 137 provides that a Safeguarding Board may ask a person or a body to provide information to it or another person or body that it specifies. The information request must be made to a "qualifying person or body" and must be for the purpose of assisting the Safeguarding Board in the exercise of its functions. A "qualifying person or body" is defined in subsection (7) and means a person or body whose activities or functions are considered by the Safeguarding Board to be such that the person or body is likely to have information relevant to the exercise of a function of the Safeguarding Board.

386. This section provides a statutory gateway to enable persons to lawfully provide information to Safeguarding Boards when requested. The processing of personal data in compliance with a legal obligation to which the data controller is subject, other than an obligation imposed by contract, can provide a lawful basis for processing data under the Data Protection Act 1998 (see Schedule 1 (paragraph (a) of the first data protection principle) and Schedule 2, paragraph 3 of that Act).¹⁹

387. The qualifying person or body is under a duty to comply with a request for information made by a Safeguarding Board under this section, unless the qualifying person or body considers that doing so would be incompatible with their own duties or have an adverse effect on the exercise of their powers or duties. A qualifying person or body who decides not to comply with the request must provide the Safeguarding Board which made the request with written reasons for their decision."

5. **Pwy sy'n berchen ar Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion os yw Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn fyrddau amlasiantaeth yn hytrach nag yn endidau cyfreithiol?**

Caiff adolygiadau ymarfer eu cynnal gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn unol â rheoliadau 3 a 4 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

Felly, Byrddau Diogelu Rhanbarthol sy'n berchen arnynt, yn hytrach na'u "partner[iaid] Bwrdd Diogelu" cyfansoddol, yn yr ystyr:

¹⁹ Disodlwyd gan Ddeddf Diogelu Data 2018

- a) Bod yr adolygiadau wedi'u cynhyrchu gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol,
- b) I'r graddau y mae'r wybodaeth a geir ynddynt ym meddiant partner perthnasol, caiff ei dal gan y partner hwnnw ar ran y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (fel yr ystyrir ym mharagraffau 14 i 17 uchod).

6. **Sut y mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn gwahaniaethu rhwng cwyn ynghylch y bwrdd a chwyn ynghylch asiantaeth?**

Mae'r ymholiad hwn yn ymwneud â ph'un a ddylid ystyried cwyn yn gŵyn ynghylch y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ei hun neu'n gŵyn ynghylch un o'i "bartner[iaid] Bwrdd Diogelu" cyfansoddol.

Byddai hynny'n dibynnu ar b'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â mater yr ymdriniodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ag ef, wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol, neu yr ymdriniodd un o'i bartneriaid ag ef mewn rôl nad yw'n gysylltiedig â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Rhaid ystyried pwy yw testun y gŵyn. Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag un o'i bartneriaid, sy'n gweithredu ar ran y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, dylid ei thrin fel cwyn ynghylch y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn hytrach nag yn gŵyn ynghylch y partner sy'n gweithredu ar ei ran.

7. **Beth yw rhwymedigaethau cyfreithiol aelod o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n gweithredu yn y rôl honno yn hytrach nag fel cynrychiolydd ei asiantaeth ei hun?**

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol bosibl "partner Bwrdd Diogelu" cyfansoddol (adran 134(2)) yn cyfateb o hyd i rwymedigaeth y partner unigol ei hun, er enghraifft yr awdurdod lleol neu Brif Swyddog Heddlu.

Fel yr eglurir yn y canllawiau statudol, "Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol I – Cyflwyniad a Throsolwg" dan y pennawd, "Atebolrwydd":

"252. Mae Byrddau Diogelu yn atebol fel aelodau unigol trwy eu rôl asiantaeth unigol i'w sefydliad ac i unrhyw arolygiaethau sefydliadol perthnasol."

Yn ymarferol, ni fyddem yn rhagweld unrhyw anhawster gyda'r cynnig hwn gan ei bod yn anodd meddwl am sefyllfa lle gallai partner unigol ddadlau bod rhwymedigaeth bosibl yn gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau ar ran y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ond nid â chyflawni ei rôl ei hun. Yn amlwg, byddai partner Bwrdd Diogelu yn ei amddiffyn ei hun trwy gyfeirio at y ffaith ei fod yn gweithredu er mwyn cydymffurfio â swyddogaethau statudol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol dan y Ddeddf a'r Rheoliadau sy'n sail iddi.

8. **Beth yw statws gwybodaeth hanesyddol sy'n cael ei dal gan y byrddau lleol sydd bellach wedi dod i ben a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol sydd newydd eu ffurfio?**

Am y rhesymau a nodwyd dan gwestiynau 3 a 4 uchod, nid oes yn rhaid datgelu'r wybodaeth hanesyddol hon, boed yn wybodaeth a gâi ei dal yn wreiddiol gan y byrddau lleol neu a gaiff ei dal yn awr gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'r fframwaith statudol wedi newid, ond gan gofio na fyddai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi bod yn berthnasol i'r wybodaeth yn ystod y cyfnod pan oedd y byrddau lleol yn bodoli, fel y nodir uchod, ni allwn weld sut y gallai fod yn berthnasol yn awr wedi iddynt gael eu disodli gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, o ystyried cynnwys y Ddeddf a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

P'un a yw'r wybodaeth yn cael ei thrin fel gwybodaeth sy'n eiddo i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol neu'n wybodaeth sy'n aros gyda'r bwrdd lleol, erys ein cyngor mewn perthynas â phwyntiau 3 a 4 uchod gan nad yw'r naill endid na'r llall yn cael ei nodi fel awdurdod cyhoeddus dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

9. **Sut beth fyddai gweithdrefn gwyno enghreifftiol ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol? Pwy fyddai â hawl i gwyno?**

O ran cynnwys gweithdrefn gwyno enghreifftiol ar gyfer Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, hoffem nodi'r pwyntiau canlynol ynghylch ei gweithredu'n gyffredinol:

- Dylai gweithdrefn gwyno fod ar gael i unrhyw berson y mae'r gwaith o gyflawni swyddogaethau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn effeithio arno – h.y. gallai fod gan y sawl y mae unrhyw gam a gymerwyd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi effeithio arnynt yr hawl i gwyno.
- Gellid llunio gweithdrefn gwyno ar gyfer Bwrdd Diogelu Rhanbarthol dan reoliad 5 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, sy'n golygu y gall Bwrdd Diogelu Rhanbarthol benderfynu ar ei weithdrefnau ei hun a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd.
- Dylai cwyn gael ei chyfeirio at y "partner arweiniol", boed yng nghyswllt plant neu oedolion (adran 134(3)).
- Os caiff cwyn ei chyfeirio at "partner Bwrdd Diogelu" unigol (adran 134(2)) gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r sefydliad hwnnw, ac os yw'r gŵyn yn ymwneud mewn gwirionedd â'r modd y mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cyflawni ei swyddogaethau, dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ymdrin â'r gŵyn honno dan ei weithdrefn gwyno ei hun. Dylid anfon gair at yr unigolyn dan sylw yn ei hysbysu ynghylch hynny.
- Yn yr un modd dylid ymdrin â chwyn a gaiff ei chyfeirio at "partner Bwrdd Diogelu" unigol, nad yw'n ymwneud â'r modd y mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cyflawni ei swyddogaethau, dan weithdrefn gwyno'r sefydliad hwnnw.
- Yn ein barn ni, gall cynnwys y weithdrefn gwyno ei hun fod yn weddol safonol a dylai fod modd i unrhyw awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol ei defnyddio.

Hyderwn fod yr ymatebion hyn wedi ymdrin â'ch cwestiynau yn llawn; rydym yn fwy na pharod i drafod y rhain yn fanylach pan fyddwch wedi cael cyfle i ystyried y cynnwys.

Eversheds Sutherland

Tachwedd 2018